Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Dafen
Lôn-Yr-Ysgol
Dafen
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA14 8LL

**Dyddiad yr arolygiad:  Ebrill 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Dafen

Mae Ysgol Gynradd Dafen wedi'i lleoli ym mhentref Dafen, ar gyrion Llanelli.

Ar hyn o bryd, mae 170 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Mae saith dosbarth yn yr ysgol, sy'n cynnwys tri dosbarth oed cymysg a dosbarth meithrin ag 21 o ddisgyblion amser llawn ac 8 o ddisgyblion rhan-amser. Mae cyfartaledd dreigl 3 blynedd y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn 31%, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%.

Mae'r ysgol yn nodi bod gan oddeutu 31% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Daw ychydig bach iawn o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Mae Ysgol Gynradd Dafen yn cydweithredu ag ysgol leol arall. Fe wnaeth y pennaeth gweithredol gymryd cyfrifoldeb am Ysgol Gynradd Dafen ym mis Tachwedd 2015. Ef hefyd yw pennaeth parhaol ysgol leol arall. Mae'r pennaeth yn treulio cyfwerth â dau ddiwrnod yr wythnos yn yr ysgol ac mae'r dirprwy bennaeth yn arwain yr ysgol ar y tridiau arall. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Ionawr 2010.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r pennaeth yn gweithio'n gydwybodol gyda'r staff ac wedi datblygu tîm cryf yn ystod yr amser cyfyngedig y mae yn yr ysgol bob wythnos. Mae'r holl staff, llywodraethwyr a rhieni'n rhannu ei weledigaeth glir am welliant parhaus.

Mae'r ethos yn yr ysgol yn hapus a chroesawgar, gyda disgyblion ac oedolion yn cydweithio'n effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol. Datblygant yn ddysgwyr hyderus ac mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos diddordeb a mwynhad mewn dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn chwarae rhan annatod ym mywyd yr ysgol, yn cynrychioli'r holl ddisgyblion yn llwyddiannus. Maent yn ymddwyn yn dda, gan ddangos gofal a phryder tuag at eraill yn eu cymuned a thu hwnt. Mae athrawon yn rhoi gweithgareddau ysgogol iddynt, sy'n datblygu'u medrau yn effeithiol.

Mae'r cysylltiadau rhwng hunanarfarnu a blaenoriaethau'r ysgol yn gliriach erbyn hyn, ac mae hyn wedi arwain at lawer o welliannau diweddar.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau wedi'u diffinio'n glir er mwyn mesur cynnydd yn effeithiol

A2 Gwella deilliannau i ddisgyblion mwy abl

A3 Sicrhau bod yr holl athrawon yn rhoi adborth effeithiol i ddisgyblion, sy'n eu helpu i wella'u gwaith

A4 Gwella presenoldeb

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion lefelau medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth sydd islaw'r lefelau a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud y lefel ddisgwyliedig o gynnydd o'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid yw ychydig ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl, yn gwneud digon o gynnydd ac mae'n aneglur weithiau pa mor dda mae disgyblion ag anghenion dysgu unigol yn gwneud cynnydd yn unol â'u targedau unigol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau siarad a gwrando effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn gywir ac yn rhugl, ac yn siarad am eu gwaith yn frwd. Trafodant sut maent yn gofalu am bysgodyn aur y dosbarth yn fanwl. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn siarad yn glir ac yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, er enghraifft wrth esbonio'r rhesymeg wrth wraidd eu rhagfynegiadau ar gyfer arbrawf gwyddoniaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu medrau ffoneg sicr, sy'n eu helpu i ddarllen geiriau anghyfarwydd yn hyderus. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen gyda rhuglder a mynegiant. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau darllen yn dda i ddethol gwybodaeth berthnasol trwy fras-ddarllen a sganio, er enghraifft wrth wneud ymchwil ar y rhyngrwyd i blanhigion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig am ddarllen ac yn mwynhau darllen llyfrau a ysgrifennwyd gan amrywiaeth eang o awduron.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau ysgrifennu yn dda ac yn ysgrifennu'n hyderus at amrywiaeth eang o ddibenion. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn y cyfnod sylfaen yn creu map stori cywir o chwedl 'Rumpelstiltskin'. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ffurfio llythrennau'n gywir ac yn defnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir wrth ysgrifennu'n annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, wrth iddynt symud ymlaen trwy gyfnod allweddol 2, yn dangos dealltwriaeth glir o arddulliau ysgrifennu a chynulleidfaoedd gwahanol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 yn defnyddio paragraffau ac atalnodi yn gywir. Defnyddiant eirfa aeddfed a diddorol, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr i berswadio'r ymerawdwr i ryddhau Gulliver. Ar y cyfan, mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad disgyblion yn amrywio'n ormodol ar draws yr ysgol.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd sicr mewn mathemateg. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u gwybodaeth fathemategol yn dda i ddatrys problemau bob dydd, gan gynnwys problemau'n ymwneud ag arian ac amser. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dethol gwybodaeth yn gywir o'r siartiau cyfrif i greu eu graffiau bar eu hunain. Er enghraifft, maent yn casglu, rhannu a chyflwyno gwybodaeth am y mathau o ieir bach yr haf yng ngardd yr ysgol. Wrth i ddisgyblion symud ymlaen drwy gyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau cyfrifo pen a strategaethau ysgrifenedig i ddatrys problemau yn gywir.

Mae llawer ohonynt yn dehongli tablau a graffiau mewn gweithgareddau datrys problemau a chyd-destunau ymchwiliol yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio'u medrau rhifedd a llythrennedd yn hyblyg mewn amrywiaeth o weithgareddau ystyrlon mewn meysydd dysgu eraill. Er enghraifft, mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn mesur eu 'nadroedd Affricanaidd' yn gywir ac yn defnyddio gwybodaeth ar-lein i ddarganfod rhagor am fwystfilod bach. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn defnyddio'u medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl yn effeithiol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ymchwilio, paratoi ac arfarnu ryseitiau o'r Ail Ryfel Byd, fel cacenni 'sbwng heb wyau'.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion iau yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio'u meddalwedd i newid maint y testun yn gywir, ychwanegu darluniadau a chreu effeithiau sain ar gyfer stori'r 'Pair Uwd Hud'*.* Yng nghyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion drefnu a rhaglennu cyfarwyddiadau'n hyderus i greu animeiddiadau. Maent yn datblygu'u medrau amlgyfryngau a'u medrau prosesu geiriau i safon dda, er enghraifft wrth roi cyflwyniad am fynyddoedd mawreddog Cymru.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r iaith Gymraeg ac maent yn ymateb yn gadarnhaol i ethos dwyieithog yr ysgol. Gwnânt gynnydd pwrpasol yn datblygu medrau cyfathrebu sylfaenol mewn gwersi ffurfiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen llyfrau Cymraeg yn hyderus ac yn trafod y testun yn rhwydd. Erbyn Blwyddyn 6, gall llawer o ddisgyblion ysgrifennu'n dda yn estynedig, er enghraifft wrth ysgrifennu deialog rhwng ffrindiau.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod gyda phwy i siarad os bydd ganddynt broblem. Dangosant barch ac maent yn gwrtais a moesgar tuag at ei gilydd ac oedolion yn gyson. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn gofalu am ddisgyblion iau ac yn eu cefnogi'n dda, yn enwedig yn ystod amseroedd egwyl pan fyddant yn cyd-chwarae. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn ystod amseroedd egwyl. Maent yn gwybod sut i gadw'u hunain yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos diddordeb mewn gwersi ac yn trafod gwaith presennol a gwaith blaenorol yn frwd, gan fwynhau'r pynciau a astudiant. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n effeithiol mewn parau a grwpiau. Maent yn gwrando'n astud ar farn pobl eraill ac yn delio'n dda â barn sy'n wahanol i'w barn nhw. Enghraifft dda o hyn yw pan fydd y disgyblion hŷn yn ceisio darbwyllo'r pennaeth o werth cael ffôn symudol. Wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn nodi sut i wella'u gwaith eu hunain yn fwyfwy medrus. Fodd bynnag, dim ond ychydig ddisgyblion sy'n gwneud penderfyniadau am sut a beth maen nhw'n ei ddysgu.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o sut i gadw'n iach trwy fwyta deiet cytbwys a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn rhedeg siop ffrwythau bob dydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod bod

ffrwythau a llysiau yn rhan hanfodol o ddeiet iach. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig am eu gwersi addysg gorfforol ac yn cymryd rhan yn dda mewn gweithgareddau egnïol yn ystod amser egwyl. Mae disgyblion mwy abl yn cymhwyso'u medrau arwain yn hyderus i hyfforddi'u cymheiriaid yn ystod sesiynau dosbarth. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn y gweithgareddau chwaraeon ar ôl ysgol, fel y clwb aml-chwaraeon. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n dda at eu lefelau ffitrwydd a'u medrau cymdeithasol.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â rolau cyfrifoldeb yn llwyddiannus, er enghraifft trwy ddod yn arweinwyr digidol, arweinwyr chwaraeon neu fonitoriaid sy'n sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn ymddwyn yn synhwyrol yn ystod amseroedd egwyl. Mae llysgenhadon y plant yn datblygu dealltwriaeth disgyblion eraill o'u hawliau mewn cymdeithas yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn trefnu gweithgareddau codi arian i godi ymwybyddiaeth o blant yn Affganistan nad ydynt yn cael addysg. Mae gwaith cadarnhaol y grŵp hwn yn helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu dealltwriaeth dda o degwch, cydraddoldeb a goddefgarwch. Mae aelodau'r pwyllgor eco yn annog yr holl ddisgyblion i ofalu am eu hamgylchedd a gweithredu'n gynaliadwy. Er enghraifft, maent yn ailgylchu gwastraff bwyd i greu eu compost eu hunain i'w ddefnyddio yn eu gwelyau llysiau a ffrwythau, ac maent yn trefnu gweithgareddau fel casglu poteli llaeth a'u hanfon i gwmni ailgylchu sy'n creu cadeiriau olwyn.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd ac yn ymateb yn dda i fentrau'r ysgol i wella presenoldeb. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion yr ysgol, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi disgyn dros y tair blynedd diwethaf ac nid ydynt yn cymharu'n dda â chyfraddau ysgolion tebyg.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Ar y cyfan, mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae'r holl staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda ac, o ganlyniad, mae'r awyrgylch mewn ystafelloedd dosbarth yn ddigynnwrf a chynhyrchiol ar y cyfan.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cydweithio i gynllunio cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n cynnwys profiadau dysgu cyfoethog a chreadigol dan do ac yn yr awyr agored. Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae'r ysgogiad ar gyfer pynciau a gwersi yn gyffrous ac yn hawlio sylw disgyblion. Er enghraifft, mae'r holl ddisgyblion ym Mlwyddyn 5 yn cymryd rhan yn frwd mewn ymchwilio, cynllunio a chyllidebu ar gyfer eu rhandiroedd. Yn y rhan fwyaf o sesiynau, mae dysgu'n hwyl a gweithgareddau'n bwrpasol ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da. Er enghraifft, mae disgyblion yn creu ogof i fwystfilod bach ac abwydfa, ac maen nhw'n deor wyau buchod coch cwta. Mae hyn yn datblygu'u medrau llefaredd a'u gwybodaeth wyddonol yn effeithiol. Ar adegau, fodd bynnag, nid yw athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau dysgu annibynnol yn llawn.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn dda, er enghraifft dylunio, creu ac arfarnu model o chwyrligwgan ac ysgrifennu'r mesurau a'r cyfarwyddiadau ar gyfer gwneud bara. Mae gweithgareddau buddiol i ddatblygu medrau TGCh disgyblion ar draws yr ysgol, trwy amrywiaeth briodol o gyd-destunau.

Mae’r rhan fwyaf o oedolion yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau ymgysylltu â disgyblion yn fedrus, fel annog disgyblion i ‘gymryd’ syniadau gan ei gilydd, neu ddefnyddio’u ‘llygaid magnet’ i dalu sylw manwl i’r athro. Mae gan bron pob un o’r athrawon ddisgwyliadau uchel ar gyfer disgyblion ac mae eu defnydd effeithiol ar gwestiynau treiddgar yn sicrhau bod y dysgu’n symud ymlaen ar gyflymder da. Yn fwy diweddar, mae asesiadau athrawon o waith i ddisgyblion yn fwy trylwyr ac mae’r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio’r wybodaeth hon yn bwrpasol i osod targedau addas i ddisgyblion. Fodd bynnag, ym mwyafrif y dosbarthiadau, nid yw’r her i ychydig ddisgyblion mwy abl bob amser yn ddigon uchel.

Mae’r rhan fwyaf o oedolion yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion yn ystod gwersi. Mae hyn yn helpu disgyblion i weld beth maen nhw’n ei wneud yn dda ac ymhle y gallan nhw wella. Yn yr enghreifftiau gorau, mae adborth ysgrifenedig athrawon yn rhoi arweiniad clir a defnyddiol i ddisgyblion ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella’u gwaith. Mae ychydig ddisgyblion yn dechrau ymateb i’r sylwadau hyn ac mae hyn yn arwain at ddeialog defnyddiol am ddysgu, rhwng athrawon a disgyblion. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, nid yw adborth i ddisgyblion yn ddigon penodol ac mae hyn yn golygu nad yw disgyblion yn deall y camau nesaf yn eu dysgu yn glir. Mae llawer o athrawon yn rhoi cyfleoedd addas i ddisgyblion ystyried ansawdd eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill.

Caiff amrywiaeth dda o ymweliadau addysgol ac ymwelwyr ei chynllunio, sy’n ysgogi diddordebau a gwybodaeth disgyblion yn dda. Er enghraifft, mae taith i amgueddfa leol yn helpu disgyblion i ddeall effaith yr Ail Ryfel Byd ar y gymuned leol ac mae ymweliadau â phentref Celtaidd yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth well o ddiwylliant a hanes Cymru. Mae ymwelwyr â’r ysgol o gwmni dur lleol yn symbylu ac ehangu dealltwriaeth disgyblion o fyd gwaith yn llwyddiannus.

Mae bron pob un o’r oedolion yn modelu’r Gymraeg yn effeithiol iawn ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o’r Gymraeg yn llwyddiannus. Mae staff yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso’u medrau Cymraeg mewn gwersi sydd wedi’u cynllunio. Mae’r ysgol yn dechrau annog disgyblion i ddefnyddio’u medrau Cymraeg yn anffurfiol o gwmpas yr ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwelliant**

Mae’r ysgol yn gynhwysol ac yn cynnig amgylchedd gofalgar a meithringar i’r holl ddisgyblion. Mae staff yn deall, yn nodi ac yn ymateb i anghenion emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol disgyblion yn dda. Maent yn cydnabod ac yn dathlu cyflawniadau disgyblion mewn sawl agwedd wahanol ar fywyd yr ysgol. Mae strategaethau a systemau effeithiol ar waith i gefnogi lles disgyblion. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion rannu’u hemosiynau ar wahân ac maent yn ymateb yn rhagweithiol i anghenion disgyblion. Mae’r ysgol yn gweithio’n agos gydag asiantaethau allanol, gan gynnwys rheolwyr cynhwysiant cymdeithasol a seicolegydd addysg yr awdurdod lleol, ac mae’n gweithredu’n dda ar sail y cyngor a roddir i roi cymorth effeithiol i fodloni anghenion ymddygiadol penodol.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac i annog disgyblion i gadw’n heini. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn dosbarthu bwyd iach ac afiach ac mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn tyfu a choginio’u ffrwythau

a'u llysiau eu hunain. Mae'r clwb aml-chwaraeon ar ôl ysgol yn cyfoethogi datblygiad corfforol disgyblion yn llwyddiannus ac yn cyfrannu'n dda at safon lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod sut i gadw'u hunain yn ddiogel, gan gynnwys wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd. Er enghraifft, mae cyfarfodydd â swyddog cyswllt yr heddlu yn rhoi gwybod i ddisgyblion sut i ofalu amdanynt eu hunain, gan gynnwys delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a phwysau gan gyfoedion. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau a dod yn ddinasyddion gweithgar trwy gymryd rhan mewn grwpiau dylanwadol. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn rhedeg y siop ffrwythau fel menter, gan rannu'r holl elw gyda dosbarthiadau unigol fel y gallant brynu adnoddau o'u dewis. I gryfhau llais y disgybl yn yr ysgol, mae hefyd wedi cyflwyno rhaglen sy'n galluogi'r holl ddisgyblion i fynegi eu lles emosiynol yn ddyddiol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau disgyblion tuag at eu gwaith a'u cymheiriaid.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o faterion ysbrydol, moesol a chymdeithasol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn hybu parch a goddefgarwch yn dda trwy wasanaethau ysgol gyfan, cysylltiadau da â'r eglwys a digwyddiadau elusennol. Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd addas i ddisgyblion ystyried sut y dylent drin pobl eraill ac yn eu helpu i ddeall amrywiaeth y byd ehangach. Mae staff yn defnyddio cwrs preswyl yn dda i annog disgyblion i ddysgu am ymddiriedaeth a gwaith tîm tra'n cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.

Mae gan yr ysgol berthynas effeithiol â'r gymuned leol. Mae'n defnyddio amrywiaeth eang o ymwelwyr yn llwyddiannus i ehangu profiadau diwylliannol disgyblion. Er enghraifft, mae artistiaid, arweinwyr crefyddol a mabolgampwyr enwog Cymru yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i rannu'u profiadau a'u doniau arbennig gyda disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ymwybyddiaeth disgyblion o'u hardal, eu treftadaeth a'u Cymreictod. Hefyd, mae cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymryd rhan yn y celfyddydau creadigol trwy wersi cerddoriaeth arbenigol a pherfformio yng nghynyrchiadau'r Nadolig.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod rhieni a disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd dod i'r ysgol yn rheolaidd a bod yn brydlon. Mae'r strategaethau hyn yn dechrau gwella presenoldeb disgyblion.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ysgol wedi datblygu proses i olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn dechrau defnyddio'r wybodaeth hon yn fwy rheolaidd i nodi'r disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n fwy abl.

Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn addas ar y cyfan o ran helpu llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd disgwyliedig. Nid yw'r ysgol yn ystyried barn disgyblion a rhieni yn ddigon da wrth ysgrifennu ac adolygu cynlluniau dysgu unigol disgyblion. Nid yw'r targedau bob amser yn glir a mesuradwy, ac nid yw arweinwyr yn monitro ac adolygu pa mor dda mae disgyblion unigol yn gwneud cynnydd yn ddigon trylwyr. O ganlyniad, nid yw'n glir p'un a yw'r cymorth a ddarperir yn gwbl effeithiol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae’r pennaeth gweithredol yn gweithio’n gydwybodol ar arwain a rheoli pan fydd yn bresennol yn yr ysgol. Mae’n cael cymorth effeithiol gan ddirprwy bennaeth yr ysgol a’r staff, sy’n sicrhau bod yr ysgol yn rhedeg yn effeithlon o ddydd i ddydd.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir, sef rhoi’r cyfle gorau posibl i’r holl ddisgyblion lwyddo mewn awyrgylch diogel a hapus. O dan ei arweinyddiaeth gadarn, mae’r staff wedi ennill dealltwriaeth ddefnyddiol o safonau a pherfformiad yr ysgol. Mae hyn yn eu helpu i gyfrannu’n dda at y broses benderfynu strategol. Mae’r pennaeth a’r corff llywodraethol wedi gweithio’n effeithiol i sicrhau nad yw’r nifer cymharol uchel o newidiadau ymhlith y staff wedi cael effaith niweidiol ar gynnydd a lles disgyblion.

Erbyn hyn, mae gan yr holl aelodau staff rolau a chyfrifoldebau priodol sy’n cysylltu’n dda â gwella’r cwricwlwm ac addysgu. Mae staff yn cydweithio’n llwyddiannus i roi profiadau eang a gwerthfawr i’r holl ddisgyblion. Mae cyfarfodydd ffocysedig staff yn rhoi llawer o gyfleoedd i arweinwyr ac athrawon arfarnu’r cynnydd tuag at gyflawni blaenoriaethau gwella cytunedig.

Mae gan yr ysgol systemau buddiol ar gyfer rheoli perfformiad athrawon. Mae athrawon yn gweithio’n agos gyda llywodraethwyr a staff i wireddu’r amcanion hyn a monitro cynnydd yn unol â’r blaenoriaethau cytunedig. Mae’r pennaeth yn sicrhau bod cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol y staff. Mae’r rhain yn cysylltu’n uniongyrchol â blaenoriaethau’r ysgol ac anghenion athrawon unigol. Mae hyfforddiant penodol a chydweithio agos ag ysgolion cyfagos, er enghraifft wrth wella’r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a chynllunio ar gyfer gweithgareddau chwarae cynaliadwy yn ystod amseroedd cinio, wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau darllen a chymdeithasol disgyblion.

Mae’r uwch dîm arwain yn defnyddio ystod briodol o weithgareddau hunanarfarnu sy’n eu helpu i gael dealltwriaeth gywir o gryfderau a gwendidau’r ysgol. Er enghraifft, maent wedi nodi’r angen i wella’r ddarpariaeth ar gyfer TGCh a chodi safonau llafaredd yr holl ddisgyblion. Mae arweinwyr wedi rhoi camau gweithredu effeithiol ar waith i fynd i’r afael â’r blaenoriaethau hyn ar gyfer gwella. Gydag amser, fodd bynnag, nid yw camau cynlluniedig yng nghynlluniau datblygu blaenorol yr ysgol bob amser wedi arwain at wella deilliannau yn ddigon da, er enghraifft presenoldeb.

Mae’r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i’r ysgol. Mae arweinwyr yn rhoi gwybodaeth dda i lywodraethwyr am berfformiad yr ysgol trwy ddiweddariadau manwl, cyfeillio â chydlynwyr pwnc ac, yn fwy diweddar, cymryd rhan mewn teithiau dysgu. Mae hyn yn galluogi llywodraethwyr i ddwyn yr ysgol i gyfrif am safonau yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn oedd herio safonau mewn gwyddoniaeth. O ganlyniad, mae athrawon wedi cyfoethogi’r ddarpariaeth trwy sicrhau cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu’u medrau ymchwiliol.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn rheoli’r gyllideb yn ofalus i sicrhau’r defnydd gorau ohoni ac maent wedi cytuno ar gynlluniau gyda’r awdurdod lleol i reoli’r diffyg presennol yn y gyllideb. Mae’r ysgol yn defnyddio’r grant datblygu disgyblion yn bwrpasol i godi safonau’r holl ddisgyblion sy’n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni’r deilliant neu’r lefel ddisgwyliedig.

Yn gyffredinol, mae adnoddau'n briodol ar gyfer bodloni anghenion disgyblion a'r targedau yn y cynllun gwella. Mae'r amgylchedd dan do yn cefnogi dysgu ac addysgu yn bwrpasol ac mae cyfleoedd cynlluniedig yn datblygu medrau cymdeithasol a chreadigol disgyblion yn effeithiol. Mae'r amgylchedd dysgu awyr agored yn datblygu'n addas ac mae'r ysgol yn ei ddefnyddio'n well yn gynyddol i gefnogi dysgu disgyblion. Mae Cyfeillion yr Ysgol yn darparu incwm ychwanegol defnyddiol, er enghraifft i brynu llyfrau ar gyfer llyfrgell yr ysgol. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o arbenigedd athrawon unigol i gynnig addysgu arbenigol mewn cerddoriaeth ac addysg gorfforol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/06/2018